**<u>Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-15-00(p.8)</u>**

**Dyddiad: 5 Gorffennaf 2000**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl: Rheoleiddio ac Archwilio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd - Y Mesur Safonau Gofal - Adroddiad Diweddaru**

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw:

**darparu adroddiad diweddaru i Aelodau'r Pwyllgor ar gynnydd y Mesur Safonau Gofal yn y Senedd.**

**Cefndir**

2. Pan weithredir y Mesur Safonau Gofal, bydd yn darparu'r sail deddfwriaethol sylfaenol a fydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i weithredu fel rheolydd ar gyfer ystod eang o wasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd nad yw'r NHS yn gyfrifol amdanynt yng Nghymru.

3. Bwrir ymlaen â'r Mesur fel deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru a Lloegr - un o'r rhai cyntaf ar ôl datganoli. Mae'r polisi a'r egwyddorion y tu ôl i'r Mesur yn gyffredin i Gymru a Lloegr ond mae rhai nodweddion penodol Gymreig y rhoddir ystyriaeth iddynt. Mae'r gwahaniaethau'n deillio o Bapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol, 'Adeiladu ar Gyfer y Dyfodol' a phenderfyniadau a gymerwyd, ar ôl ymgynghori trwy Gymru a chynnal trafodaeth yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Y Prif Ddarpariaethau**

4. Prif ddiben y Mesur yw diwygio'r system reoleiddiol ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru a Lloegr a gwella'r amddiffyniad i bobl sy'n hawdd eu niweidio. Bydd y swyddogaethau rheoleiddiol hyn yn cael eu cymryd gan y Gyfarwyddiaeth Safonau Gofal newydd ar gyfer Cymru a chan y Comisiwn Safonau Gofal yn Lloegr. Bydd yr awdurdodau rheoleiddiol newydd yn cymryd cyfrifoldeb rheoleiddiol ar gyfer yr holl wasanaethau sydd yn cael eu rheoleiddio gan awdurdodau lleol **ar hyn o bryd**, h.y.

- cartrefi gofal preswyl;
- cartrefi plant (ar gyfer mwy na 4 plentyn);
- ysgolion preswyl annibynnol (arolygiadau lles yn unig); a
- Chartrefi Nyrsio sy’n cael eu rheoleiddio gan Awdurdodau Iechyd.

5. Mae’r Mesur yn darparu **swyddogaethau newydd** i’r awdurdodau rheoleiddio gan gynnwys:

- cartrefi gofal Awdurdodau Lleol (ar yr un sail â chartrefi yn y sector annibynnol am y tro cyntaf);
- gofal cartref yn y sector statudol a’r sector annibynnol fel ei gilydd; cartrefi bychan ar gyfer plant (llai na 4 plentyn);
- asiantaethau maethu annibynnol; ac
- asiantaethau preswyl a gynhelir (arolygiadau lles yn unig);
- gofal iechyd y sector preifat a’r sector gwirfoddol.

6. Bydd yr "Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru" yn cael ei sefydlu fel rhan o’r Cynulliad ei hun yn hytrach nag fel corff statudol annibynnol fel a gynllunnir yn Lloegr. At y diben hwn, bydd yr un swyddogaethau rheoleiddiol ag sy’n cael eu rhoi i’r Comisiwn Safonau Gofal yn Lloegr yn cael eu rhoi i’r Cynulliad ei hun; h.y. bydd y Cynulliad yn gweithredu fel rheolydd.

7. Bydd trefniadau ar gyfer rheoleiddio gwarchod plant a darpariaeth gofal dydd ar gyfer plant ifanc hefyd yn cael eu diwygio. Bydd trefniadau integredig newydd ar gyfer rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn cael eu creu, drwy ddod â’r systemau i reoleiddio gofal plant ac archwilio addysg blynyddoedd cynnar at ei gilydd. Yn Lloegr, gwneir hyn trwy drosglwyddo rheoleiddio gofal plant i Ofsted; yng Nghymru, bydd partneriaeth gadarn rhwng Estyn ac Arolygiaeth Safonau Gofal y Cynulliad yn cyflawni’r un amcan. Yn ogystal â hyn, bydd yn ofynnol i’r rhai sy’n gweithio â phlant hn neu’n dod i gysylltiad â hwy ddangos eu bod yn addas ar gyfer y gwaith hwnnw.

8. Dyletswyddau cyffredinol y Cynulliad fydd annog gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau gofal a sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y gwasanaethau hyn ar gael i’r cyhoedd. Mae’r dyletswyddau hyn yn ymwneud ag argymhellion gan y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i’r Henoed. O dan y trefniadau diwygiedig yng Nghymru a Lloegr, bydd safonau cenedlaethol newydd ar gyfer rheoleiddio’n cael eu cyrraedd.

9. Mae’r Mesur hefyd yn darparu ar gyfer rheoleiddio a hyfforddi’r gweithlu gofal cymdeithasol, drwy sefydlu Cyngor Gofal Cymru (CCW), a fydd yn gweithredu o dan gyfarwyddyd ac arweiniad cyffredinol y Cynulliad, a Chyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol (GSCC) ar gyfer Lloegr. Bydd y Cynghorau hyn yn rheoleiddio hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol ac yn codi safonau gofal cymdeithasol trwy godau ymddygiad ac ymarfer a thrwy ddulliau eraill. Am y tro cyntaf, bydd cofrestr o staff gofal cymdeithasol yn cael ei sefydlu a’i gynnal gan bob un o’r Cynghorau. Mae’r Mesur yn darparu ar gyfer diddymu’r Cyngor Canolog ar gyfer Addysg a

Hyfforddiant mewn Gwasanaethau Cymdeithasol (CCETSW), sy'n rheoleiddio hyfforddiant mewn gwaith cymdeithasol trwy'r DU ar hyn o bryd.

10. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ddyletswydd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd gadw rhestr o unigolion yr ystyrir nad ydynt yn addas i weithio ag oedolion sy'n hawdd eu niweidio. Bydd un rhestr yn cael ei sefydlu ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r rhestr a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwarchod Plant 1999. Bydd yn ddyletswydd ar ddarparwyr gofal penodol, asiantaethau cyflogi a busnesau sy'n darparu neu'n cyflenwi unigolion i weithio mewn swyddi gofal, gyfeirio pobl at y rhestr mewn amgylchiadau penodol. Bydd yn rhaid i ddarparwyr gofal hefyd wirio cynnwys y rhestrau cyn cynnig gwaith i bobl a allai gael eu cyflogi mewn swyddi gofal yn gweithio gydag oedolion sy'n hawdd eu niweidio, a gwrthod gwaith mewn swyddi o'r fath i unrhyw un y cynhwysir ei enw ar y rhestr.

11. Mae'r Mesur yn darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r awdurdodau rheoleiddio newydd a'r Cynghorau a sefydlwyd o dan y Mesur a phenderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ynghylch y rhestr i warchod oedolion sy'n hawdd eu niweidio. Bydd unrhyw apêl yn cael ei hystyried gan Dribiwnlys Gofal newydd, a fydd yn gwasanaethu Cymru a Lloegr.

12. Mae'r darpariaethau eraill yn y Mesur yn cynnwys -

> Newidiadau i reoleiddio asiantaethau nyrsys yng Nghymru a Lloegr, sy'n diddymu eithriad yr asiantaethau nyrsio o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973 a diddymu Deddf Asiantaethau Nyrsys 1957. Bydd gofyn hefyd i asiantaethau nyrsys gofrestru â'r Cynulliad a'r Comisiwn Safonau Gofal;
>
> bydd yr eithriad ar y gofyniad i gofrestru yn achos cartrefi bychan preifat ar gyfer plant (llai na 4 plentyn) yn cael ei ddiddymu. Bydd cartrefi o'r fath yn cael eu cofrestru gan awdurdodau lleol hyd nes y bydd y dyletswydd yn cael ei basio i'r Cynulliad a'r Comisiwn Safonau Gofal Cenedlaethol yn Lloegr;
>
> bydd Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984 yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i gofrestru pob adeiladau deintyddion lle rhoddir triniaeth ddeintyddol o dan anaesthetig cyffredinol. Bydd y cyfrifoldeb dros gofrestru adeiladau o'r fath yn cael ei drosglwyddo o'r Awdurdod Iechyd i'r Cynulliad a'r Comisiwn Safonau Gofal.

**Cynnydd y Mesur**

13. Cyflwynwyd y Mesur yn Nh'r Arglwyddi ar 2 Rhagfyr 1999 ac roedd wedi mynd trwy'r camau angenrheidiol yn y T hwnnw erbyn 4 Ebrill 2000. Cyflwynwyd ef yn Nh'r Cyffredin ar 5 Ebrill ac mae ar hyn o bryd wedi cyrraedd y Pwyllgor, lle disgwylir iddo barhau hyd ddechrau Gorffennaf. Mae David Hanson AS, yr Ysgrifennydd Seneddol yn Swyddfa Cymru, a John Smith, AS, aelod Bro

Morgannwg, yn aelodau o Bwyllgor T'r Cyffredin. Disgwylir o hyd y bydd Cydsyniad Brenhinol yn cael ei roi ddiwedd Gorffennaf, er bod yr amser sydd ar ôl i gyflawni hyn yn brin iawn.

**Prif Feysydd y Drafodaeth**

14. Mae cefnogaeth aml-Bleidiol gref wedi bod i'r egwyddorion sy'n sefyll y tu ôl i'r Mesur, a chonsensws ynghylch pwysigrwydd y mesurau i wella ansawdd gwasanaethau a rhoi gwell amddiffyniad i Bobl sy'n hawdd eu Niweidio.

15. Ymysg materion eraill, trafodwyd:

- pa mor ddibynnol yr oedd y Mesur ar bwerau i greu Rheoliadau;
- goblygiadau'r Mesur mewn perthynas ag adnoddau;
- rheoleiddio'r Sector Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol;
- yr effaith y gallai'r Safonau Cenedlaethol drafft ar Ofal yr Henoed ei chael ar y sector gofal cartref;
- pwysigrwydd rheoleiddio canolfannau dydd yn gadarn yn fuan wedi iddynt gael eu sefydlu;
- defnyddio OFSTED fel rheolydd ar gyfer Gwarchod plant/Gofal Dydd i rai o dan 8 oed yn Lloegr (bydd trefniadau gwahanol yn gymwys yng Nghymru);
- cysondeb yn y tâl a godir am ofal cartref (lle bydd pwerau newydd i gyhoeddi Canllawiau statudol i Awdurdodau Lleol).

16. Dim ond ar un gwelliant yn Nh'r Arglwyddi ynghylch Rheoleiddio'r Sector Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol y trechwyd y Llywodraeth. Dadleuodd y gwrthbleidiadau dros gael un rheolydd (h.y. y Comisiwn ar gyfer Gwella Iechyd - CHI) ar gyfer pob gwasanaeth aciwt yn yr NHS ac yn y sectorau gwirfoddol a phreifat. Trafodwyd y mater hwn drachefn yn y Pwyllgor yn Nh'r Cyffredin, lle cafodd gwelliant yr Arglwyddi ei wyrdroi gan y Llywodraeth fel y bydd gofyniad cyffredinol ar i'r Comisiwn Cenedlaethol/ y Cynulliad weithio gyda CHI ar y sector hwn yn hytrach na chael y berthynas gontractio orfodol â'r CHI yr oedd y gwrthbleidiau am ei gweld.

**Comisiynydd Plant i Gymru**

17. Fel y gyr y Pwyllgor, cytunwyd y bydd y Mesur yn cael ei ddefnyddio fel yr offeryn deddfwriaethol cychwynnol ar gyfer sefydlu swydd Comisiynydd Plant i Gymru. Bydd y gwelliannau sy'n angenrheidiol i wneud hyn yn effeithiol yn cael eu cyflwyno pan fydd y Pwyllgor yn Nh'r Cyffredin yn ystyried y Mesur.

**Rhaglen Deddfwriaeth Eilaidd**

18. Bydd angen i lawer o fanylion y Mesur fel y bydd yn effeithio ar Gymru gael eu darparu gan Ddeddfwriaeth Eilaidd y Cynulliad. Bydd y Mesur yn arwain at raglen sylweddol o greu rheoliadau, yn dechrau, mwy na thebyg, ym mis Hydref, ac yn parhau ymhell i mewn i'r flwyddyn nesaf. Mae goblygiadau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, a bydd cyngor pellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor maes o law.

**Gweithredu**

19. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnydd y Mesur Safonau Gofal wrth iddo fynd drwy'r Senedd.

Jane Hutt

Ysgrifennydd y Cynulliad

Gorffennaf 2000

**Cyswllt**

Steve Milsom, Pennaeth Cangen, Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol